ARMED FORCES
COVENANT

# Y STRATEGAETH AR GYFER EIN CYN-FILWYR

## EU GWERTHFAWROGI. YN CYFRANNU. YN CAEL EU CEFNOGI.


















HM Government

Northern Ireland Office

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 1 12/11/2018 16:02:05

SG/2018/236

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 2 12/11/2018 16:02:05

# Y STRATEGAETH AR GYFER EIN CYN-FILWYR

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2018

CM 9726

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 3 12/11/2018 16:02:05

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications
Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn COVENANT-VeteransStrategy@mod.gov.uk


ISBN 978-1-5286-0856-5
CCS1118886948 11/18

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi


# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **RHAGAIR** | **2** |
| **GWELEDIGAETH AC EGWYDDORION** | **4** |
| **CYFLWYNIAD A CHEFNDIR** | **7** |
| **FFACTORAU TRAWSBYNCIOL** | **13** |
| Cydweithio rhwng sefydliadau | 13 |
| Cydlynu gwasanaethau Cyn-filwyr | 13 |
| Data am y gymuned o Gyn-filwyr | 14 |
| Canfyddiad y cyhoedd a'u dealltwriaeth | 14 |
| Cydnabod Cyn-filwyr | 14 |
| **THEMÂU ALLWEDDOL** | **17** |
| Cymuned a pherthnasau | 17 |
| Gwaith, addysg a sgiliau | 17 |
| Cyllid a dyled | 18 |
| Iechyd a lles | 18 |
| Creu cartref yn y gymdeithas sifil | 18 |
| Cyn-filwyr a'r gyfraith | 19 |
| **CAMAU NESAF** | **21** |



**Y Gwir Anrhydeddus David Lidington CBE AS**

Gweinidog Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn (Cyd-gadeirydd)



**Y Gwir Anrhydeddus Gavin Williamson CBE AS**

Ysgrifennydd Amddiffyn (Cyd-gadeirydd)



**Y Gwir Anrhydeddus Tobias Ellwood AS**

Gweinidog Amddiffyn Pobl a Chyn-filwyr




**Edward Argar AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder




**Y Gwir Anrhydeddus Karen Bradley AS**

Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon



**Y Farwnes Buscombe**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Gwaith a Phensiynau (Tŷ'r Arglwyddi)



**Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS**

Ysgrifennydd Gwladol Cymru




**Alun Davies AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru



**Graeme Dey ASA**

Gweinidog Busnes Seneddol a Chyn-filwyr, Llywodraeth yr Alban



**Y Gwir Anrhydeddus Nick Gibb AS**

Gweinidog Gwladol Safonau Ysgol



**Y Gwir Anrhydeddus David Mundell AS**

Ysgrifennydd Gwladol yr Alban




**Y Gwir Anrhydeddus Caroline Nokes AS**

Gweinidog Gwladol Mewnfudo




**Jackie Doyle-Price AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd Meddwl, Anghyfartaledd ac Atal Hunanladdiadau



**Y Gwir Anrhydeddus Elizabeth Truss AS**

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys



**Heather Wheeler AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Dai a Digartrefedd



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 2 12/11/2018 16:02:12

# RHAGAIR

## gan Fwrdd y Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol

Fel cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog gorau yn y byd, mae ein Cyn-filwyr wedi dangos gwerthoedd, sgiliau, ymrwymiad a pharodrwydd i wneud yr aberth mwyaf dros eraill. Maent wastad wedi cyfrannu'n helaeth at gymdeithas, ac maent yn parhau i wneud hynny, ac mae mwyafrif llethol ein Cyn-filwyr yn ffynnu. Mae'n iawn i ni fel cenedl – llywodraeth, elusennau, busnes a'r cyhoedd yn ehangach – gefnogi a grymuso'r rhai sydd wedi ein gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog. Mae gennym hanes hir o wneud hyn yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n parhau'n ddyletswydd i ni gefnogi'r rhai sy'n cynnig eu hunain i wasanaethu'r wlad hon. Ond mae'n cynnig cyfle ehangach i wneud gwahaniaeth. Mae Cyn-filwyr yn hen ac ifanc yn cynnig cyfoeth o brofiad, sgiliau a gwybodaeth sy'n hanfodol i gymdeithas sifil.

Mae Cyn-filwyr yn byw ar draws y Deyrnas Unedig ac yn defnyddio gwasanaethau o bob rhan o'r llywodraethau. Rydym felly yn falch iawn bod y Strategaeth hon yn ddogfen i'r Deyrnas Unedig i gyd, wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Cymru a'r Alban. Bydd y modd y bydd yn cael ei chyflawni yn wahanol ym mhob rhan o'r wlad, ond, wrth lofnodi'r Strategaeth hon, mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn ymrwymo i gyflawni Gweledigaeth ac Egwyddorion a rennir a'r deilliannau gorau i'n Cyn-filwyr.

Dylem fod yn falch o'r gofal, cefnogaeth a'r parch y mae ein cymdeithas yn eu rhoi i'n Cyn-filwyr. Ond mae mwy i'w wneud. Bob dydd bydd sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol yn gweithio i gefnogi a grymuso Cyn-filwyr. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith hwnnw ac yn gosod nodau clir ar gyfer y dyfodol. Yn y flwyddyn pan ydym yn edrych yn ôl 100 mlynedd i ddiwrnod y Cadoediad a ddaeth â'r "rhyfel i ddod â phob rhyfel i ben" i ben, rhaid i ni hefyd edrych ymlaen, i weld sut y dylem ni fel cenedl gefnogi Cyn-filwyr y dyfodol.

Gan edrych ymlaen tuag at y deng mlynedd nesaf, mae'r Strategaeth hon yn nodi'r bwriad ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus i Gyn-filwyr ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd yr ymgynghoriadau fydd yn dilyn y cyhoeddiad hwn yn defnyddio'r syniadau gorau i sefydlu sut i wneud i hyn ddigwydd. Erbyn 2028 rydym yn anelu at sicrhau bod pob Cyn-filwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei gefnogi a'i rymuso ac, yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog, ac yn yr Alban, 'Renewing Our Commitments', na fydd fyth dan anfantais o ganlyniad i'w wasanaeth.



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 3 12/11/2018 16:02:12

# GWELEDIGAETH

Mae i'r Strategaeth hon gwmpas o 10 mlynedd hyd 2028. Trwy'r amserlen 10 mlynedd, mae'r Strategaeth yn ymdrin ag anghenion uniongyrchol Cyn-filwyr hŷn yn ogystal â gosod yr amodau cywir i gymdeithas rymuso – a chefnogi – y genhedlaeth iau. Bydd cynlluniau a chynigion yn gweithio tuag at Weledigaeth barhaus, sy'n cael ei mynegi mewn tair Egwyddor allweddol.

**Y rhai sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig, a'u teuluoedd, yn trosglwyddo'n llyfn yn ôl i fywyd tu allan i'r lluoedd arfog ac yn cyfrannu yn llawn at gymdeithas sy'n deall ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent wedi ei wneud a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig.**

# EGWYDDORION

Mae'r Egwyddorion yn mynegi amcanion strategol y Weledigaeth yn fwy manwl

- **Sifiliaid yw Cyn-filwyr yn gyntaf ac yn bennaf oll ac maent yn parhau i fod o fudd i'r gymdeithas ehangach**
- **Cyn-filwyr yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud y mwyaf o'u potensial fel sifiliaid**
- **Cyn-filwyr yn gallu cael cefnogaeth sy'n bodloni eu hanghenion pan fydd angen, trwy'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol**

Mae'r Egwyddorion hyn yn cwmpasu Cyn-filwyr Arferol ac Wrth Gefn a, phan fydd hynny'n briodol, eu teuluoedd a'r rhai mewn profedigaeth. Mae'r pwyslais ar y Cyn-filwyr hynny o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n byw yn y Deyrnas Unedig. Maes o law byddwn yn ystyried cwmpasu Cyn-filwyr sy'n dychwelyd i fyw dramor neu'n dewis gwneud hynny. Mae'r Egwyddorion hyn yn gyson â Chyfamod y Lluoedd Arfog ac yn seiliedig arno.

## FFACTORAU TRAWSBYNCIOL

Sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau i Gyn-filwyr ar draws yr holl Themâu Allweddol

- Cydweithio
- Cydlynu
- Data
- Canfyddiad
- Cydnabyddiaeth

## THEMÂU ALLWEDDOL

A ddaeth i'r amlwg fel rhai sy'n effeithio ar fywydau Cyn-filwyr

- **Cymuned a pherthnasau**
- **Gwaith, addysg a sgiliau**
- **Cyllid a dyled**
- **Iechyd a lles**
- **Creu cartref yn y gymdeithas sifil**
- **Cyn-filwyr a'r gyfraith**



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 4 12/11/2018 16:02:12

# CRYNODEB O DDEILLIANNAU 2028

| | | |
|---|---|---|
| | **FFACTORAU TRAWSBYNCIOL** | |
| 1 | Cydweithio rhwng sefydliadau | Gwell cydweithio rhwng sefydliadau yn cynnig cefnogaeth resymegol i Gyn-filwyr. |
| 2 | Cydlynu gwasanaethau Cyn-filwyr | Cydlynu'r ddarpariaeth i Gyn-filwyr yn darparu nodau ac egwyddorion cyson dros amser a thrwy'r Deyrnas Unedig i gyd, gan sicrhau bod Cyn-filwyr, eu teuluoedd a'r rhai a gollodd anwyliaid yn cael eu trin yn deg mewn cymhariaeth â'r boblogaeth leol. |
| 3 | Data am y gymuned o Gyn-filwyr | Gwell casglu, defnyddio a dadansoddi data ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i lunio sail o dystiolaeth i ddynodi anghenion Cyn-filwyr yn effeithiol ac ymdrin â nhw. |
| 4 | Canfyddiad y cyhoedd a'u dealltwriaeth | Poblogaeth y Deyrnas Unedig yn gwerthfawrogi Cyn-filwyr ac yn deall eu profiadau amrywiol a'u diwylliant. |
| 5 | Cydnabod Cyn-filwyr | Cyn-filwyr yn teimlo bod eu gwasanaeth a'u profiad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gymdeithas. |
| | **THEMÂU ALLWEDDOL** | |
| 1 | Cymuned a pherthnasau | Cyn-filwyr yn gallu llunio perthnasau iach a chymysgu â'u cymunedau. |
| 2 | Gwaith, addysg a sgiliau | Cyn-filwyr yn mynd i waith priodol a gallu parhau i gryfhau eu gyrfaoedd ar hyd eu hoes waith. |
| 3 | Cyllid a dyled | Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog gyda digon o addysg ariannol, ymwybyddiaeth a sgiliau i fod yn hunangynhaliol yn ariannol ac yn wydn. |
| 4 | Iechyd a lles | Pob Cyn-filwr yn mwynhau iechyd a lles corfforol a meddyliol positif, gan eu galluogi i gyfrannu at agweddau ehangach o gymdeithas. |
| 5 | Creu cartref yn y gymdeithas sifil | Cyn-filwyr â lle diogel i fyw naill ai trwy brynu, rhentu neu dai cymdeithasol. |
| 6 | Cyn-filwyr a'r gyfraith | Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â'r gwytnwch a'r ymwybyddiaeth i barhau yn ddinasyddion sy'n cadw at y gyfraith. |



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 5 12/11/2018 16:02:12

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 6 12/11/2018 16:02:13

# CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Bydd newidiadau demograffig dros y 10 mlynedd nesaf yn gweld newid o ran cenhedlaeth y gymuned o Gyn-filwyr. Heddiw, y Cyn-filwyr hynaf yn y Deyrnas Unedig yw'r rhai fu'n ymladd yn yr Ail Ryfel Byd a rhyfeloedd dilynol hyd at yr 1960au cynnar fel milwyr gorfod, gwirfoddolwyr ac fel rhan o'r Gwasanaeth Cenedlaethol. Mae bron hanner y Cyn-filwyr presennol yn y Deyrnas Unedig dros 75 mlwydd oed[1]. Mae ail gohort yn cynnwys Cyn-filwyr a fu'n ymladd o ddewis personol ar ôl yr 1960au cynnar hyd ddechrau'r 1990au a thrydydd gohort yw'r Cyn-filwyr hynny fu'n ymladd o ddechrau'r 1990au ar ôl i'r Rhyfel Oer ddod i ben, a ymunodd o ddewis personol eto. Mae llawer ohonynt wedi cael profiadau gweithredol, yn aml ar draws nifer o ryfeloedd, a gallwn ddisgwyl i anghenion a disgwyliadau'r genhedlaeth iau yma o Gyn-filwyr fod yn wahanol i'w rhagflaenwyr. Oherwydd datblygiadau mewn gwyddor feddygol mae dynion a menywod y Lluoedd Arfog wedi goroesi er gwaethaf anafiadau a fyddai wedi bod yn angheuol ychydig flynyddoedd ynghynt. Mae'r datblygiad positif iawn hwn wedi dwyn ansicrwydd yn ei sgil o ran sut y bydd niwed corfforol a meddyliol tymor hir yn datblygu ac yn newid wrth i Gyn-filwyr heneiddio. Mae'r gymdeithas y gwnaethant dyfu ynddi ac yn dod yn ôl iddi wedi esblygu, a gall fod â normau diwylliannol cynyddol wahanol i rai'r Lluoedd Arfog. Mae agwedd cymdeithas at waith yn newid, gyda phoblogaeth fwy symudol yn dilyn gyrfaoedd hyblyg ac ar sail portffolio. Efallai bod y gefnogaeth gyhoeddus i Gyn-filwyr yn fawr ond mae camddealltwriaeth o fywyd milwrol, mewn cymhariaeth â'r cyfnod pan oedd gan y rhan fwyaf o deuluoedd rywun oedd wedi bod yn yr Ail Ryfel Byd neu wedi gwneud Gwasanaeth Cenedlaethol.

Mae'r Strategaeth hon yn weithredol ar draws y sbectrwm o grwpiau demograffig Cyn-filwyr. Ynddi ceir yr egwyddorion a'r nodau i barhau i fodloni anghenion y Cyn-filwyr hŷn a'r gymuned ehangach o Gyn-filwyr dros y deng mlynedd nesaf. Ynddi hefyd gosodir yr amodau cywir i gymdeithas eu grymuso a'u cefnogi am y 100 mlynedd nesaf. Er nad oes sicrwydd am ddyfodol rhyfela, gallwn fod yn sicr y bydd profiad a 'golwg a theimlad' ein Lluoedd Arfog yn wahanol i rai heddiw. Mae'n debyg y bydd datblygiadau technolegol yn newid profiadau gweithredol a gall y pwyslais symud oddi wrth y straen gorfforol i'r un feddyliol wrth i benderfyniadau mewn gweithrediadau ddod yn fwy cymhleth. Bydd Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn parhau i gynnwys mwy o amrywiaeth wrth iddynt recriwtio o'r boblogaeth yn gyffredinol ac ar draws y byd. Bydd fersiynau'r dyfodol o'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y Weledigaeth barhaol i addasu, yn ôl yr angen, i'r newidiadau mewn cyd-destun. Mae polisi hyblyg, perthnasol, ar sail tystiolaeth yn sylfaen hanfodol i hyn.

## Cwmpas y Strategaeth

Mae'r Strategaeth hon yn gosod Gweledigaeth ac Egwyddorion parhaol ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd ac mae'n berthnasol ar draws pob sector o fywyd: cyhoeddus, corfforaethol, elusennol ac unigol. Ceir pum ffactor trawsbynciol sy'n gefndir i'r system gyffredinol o ddarparu gwasanaeth i'r Cyn-filwyr yn ogystal â chwech o themâu allweddol a ddynodwyd. Ar gyfer pob un o'r ffactorau trawsbynciol a themâu allweddol mae deilliant ar gyfer 2028 y bydd pob cenedl yn gweithio i'w gyflawni. Bydd y pedair cenedl ar draws y Deyrnas Unedig yn cydweithio i gyflawni'r Strategaeth hon, i gydnabod pwysigrwydd Cyn-filwyr ym mhob cymuned. Yn y ddogfen hon cynhwysir gwaith a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. Fel Strategaeth gan y llywodraeth mae'r pwyslais ar y sector cyhoeddus. Cydnabyddir a gwerthfawrogir gwaith eang a gwerthfawr sector elusennau'r Lluoedd Arfog. Ar wahân, gwnaed gwaith i grynhoi hyn, a fydd yn cael ei gylchredeg i randdeiliaid a phartneriaid i fod yn sail i'w dealltwriaeth o'r elfen

[1] Arolwg Poblogaeth Genedlaethol: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn byw ym Mhrydain Fawr, 2016



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 7 12/11/2018 16:02:13

hanfodol hon o’r system i gefnogi Cyn-filwyr yn y Deyrnas Unedig.

Bydd pob cenedl yn y Deyrnas Unedig yn asesu sut y bydd yn cyflawni’r Strategaeth[2] yn unol ag anghenion a dulliau cyflawni lleol. I gyd-fynd â’r Strategaeth hon, bydd pob Llywodraeth yn ymgynghori yn ôl y gofyn. Er mwyn monitro cynnydd, bydd adran o Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei roi i roi’r newyddion diweddaraf am gynnydd y Strategaeth Cyn-filwyr.

Mae’r pwyslais yn parhau ar brofiadau’r rhai sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig, eu teuluoedd a’u rhwydweithiau cefnogi, gan gynnwys teuluoedd y rhai a fu farw wrth wasanaethu’r Lluoedd Arfog. Er bod llawer o Gyn-filwyr yn dewis byw dramor, mae cwmpas y Strategaeth yn parhau i’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau’r Deyrnas Unedig yn unig. Gan fod recriwtio i Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn rhyngwladol, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ymdrin â’r materion sy’n wynebu Cyn-filwyr sy’n byw dramor.

## Model presennol y gefnogaeth i Gyn-filwyr Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig

### Diffiniad

Mae’r Llywodraeth yn diffinio Cyn-filwr fel unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi (Arferol neu Wrth Gefn), neu Forwyr Masnachol sydd wedi bod ar ddyletswydd ar weithrediadau milwrol a ddiffiniwyd yn gyfreithiol felly. Dan y diffiniad hwn, mae Cyn-filwyr eisoes wedi gadael y Lluoedd Arfog. Mae gan rai sefydliadau anllywodraethol ddiffiniadau eraill, er mai mân yw’r gwahaniaethau hyn. Mae cyfrifoldeb y Weinyddiaeth Amddiffyn am Gyn-filwyr yn bennaf yn cael ei gyflawni gan ei asiantaeth Veterans UK, ac mae’n cynnwys pensiynau milwrol neu ryfel, iawn am anafiadau a gafwyd, cefnogaeth les, medalau, cefnogaeth i drosglwyddo (fel y Gwasanaeth Trosglwyddo Amddiffyn newydd, Partneriaeth Trosglwyddo Gyrfa a chefnogaeth y Pecyn Porffor i’r rhai mewn profedigaeth). Os bydd ar Gyn-filwyr angen gwasanaethau sector cyhoeddus, mae’r rhain yn cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaeth sector cyhoeddus sifil fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. ‘Gadawyr Gwasanaeth’ yw’r Personél sy’n cynllunio i adael, sydd yn dal dan gyfrifoldeb uniongyrchol y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae milwyr Wrth Gefn yn rhan ganolog o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig, ac mae’r Strategaeth hon yn berthnasol i gyn-filwyr Wrth Gefn[3]. Mae’r Strategaeth hon yn rhoi ystyriaeth i’r ffaith bod Cyn-filwyr yn bodoli mewn cymuned ehangach o deulu a ffrindiau. Mae hefyd yn ystyried teuluoedd y rhai a fu farw wrth wasanaethu. Nid yw Cadetiaid a swyddogion cadetiaid sy’n oedolion yn gymwys i’w cydnabod fel Cyn-filwyr[4].

Cryfder y diffiniad presennol yn y Deyrnas Unedig yw pa mor gynhwysol ydyw – mae pob un sydd wedi dangos parodrwydd i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog a dod trwy’r broses ddewis drylwyr (er nad yw’n rhaid iddynt fod wedi mynd trwy’r hyfforddiant dilynol o angenrheidrwydd) yn Gyn-filwr ar ôl iddo adael. Ond mae’r strategaeth hon yn cydnabod bod anghenion a safbwyntiau Cyn-filwyr yn amrywio gan ddibynnu ar hyd eu gwasanaeth a’u profiadau. Mae’r rhan fwyaf o Gyn-filwyr wedi gwasanaethu am lawer mwy nag un diwrnod. Ar gyfer Milwyr Arferol wedi eu hyfforddi a adawodd y Lluoedd Arfog yn wirfoddol yn y 12 mis cyn Gorffennaf 2018, yr hyd gwasanaeth ar gyfartaledd oedd: 11 mlynedd i’r Llynges Frenhinol a’r Môr-filwyr Brenhinol; 10 mlynedd i’r Fyddin; a 15 mlynedd i’r Awyrlu Brenhinol[5]. Mae’n bwysig hefyd nodi na fydd yr holl broblemau a brofir gan Gyn-filwyr o ganlyniad i’w hamser yn y Lluoedd Arfog.

### Cyfamod y Lluoedd Arfog

Yn ganolog i Gyfamod y Lluoedd Arfog, a gorfforwyd yn y gyfraith trwy Ddeddf Lluoedd Arfog (2011), mae’r egwyddor na ddylai Personél y Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr, a’u teuluoedd fod dan anfantais oherwydd eu Gwasanaeth a bod darpariaeth arbennig yn cael ei gwneud i’r rhai sydd wedi aberthu mwyaf, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu hanafu ac wedi cael profedigaeth. Yn yr Alban, gosodwyd y cyfeiriad strategol ar gyfer cynnal yr egwyddorion hyn yn nogfen ‘Renewing Our Commitments’ Llywodraeth yr Alban. Arweiniodd y Cyfamod at fwy o ymwybyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus a’r gymdeithas yn fwy eang o’r anfanteision a grëwyd gan systemau a ddyluniwyd ar gyfer bywyd sifil

[2] Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori dros Ogledd Iwerddon.
[3] Pan fydd yn berthnasol, gan nodi na fydd gan Filwyr Wrth Gefn yr un cymhwyster i rai darpariaethau â phersonél Arferol.
[4] Mae lefel yr ymrwymiad yn wahanol i’r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.
[5] Ystadegau chwarterol personél yn y gwasanaethau: 2018, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, https://www.gov.uk/government/statistics/quarterly-service-personnel-statistics-2018



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 8 12/11/2018 16:02:13

a'r angen am ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion i Gymuned y Lluoedd Arfog o Bersonél sy'n Gwasanaethu, Cyn-filwyr, a'u teuluoedd. Mae ystod eang o fodelau cyflawni i wasanaethau Cyn-filwyr ar draws y byd, ond mae'r Deyrnas Unedig yn unigryw yn ei darpariaeth o rywfaint o gefnogaeth gan y wladwriaeth i'r holl ddinasyddion ar sail angen a beth bynnag yw lefel eu cyfoeth neu eu rhinweddau cymharol, ei chefnogaeth elusennol gref i'r gymuned o Luoedd Arfog, a'i Chyfamod rhwng y genedl a'i Lluoedd Arfog. Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiannau'r Cyfamod a 'Renewing Our Commitments' yn yr Alban i alluogi llwyddiant parhaus i'r aelodau hynny o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r enghreifftiau o'r llwyddiannau hyn yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog yw'r Ymddiriedolaeth annibynnol sy'n rheoli Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog o £10 miliwn y flwyddyn, gan ariannu rhaglenni grant sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Yn nhair blynedd cyntaf y Gronfa, rhoddwyd grantiau ar gyfer pedair thema fras: camau i gymysgu cymunedau milwrol a sifil a gadael i gymuned y Lluoedd Arfog gymryd rhan fel dinasyddion (tua £13M); cefnogaeth ychwanegol yn y gwasanaeth ac ar ei ôl i'r rhai sydd angen help (tua £10.9M); cael gwared ar rwystrau i fywyd teuluol (tua £4.5M); a gwasanaethau gofal iechyd nad ydynt yn rhai craidd i Gyn-filwyr (tua £191,000).
- Cyfeirir at lawer o enghreifftiau o arfer da gan awdurdodau lleol yn yr adroddiadau *Our Community - Our Covenant*[6]. Canfu'r ymchwil hwn bod cyflwyno Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi annog dull mwy cydweithredol, gan alluogi symudiad o gyd-weithio ar gynlluniau penodol i set mwy strategol o gysylltiadau. Yn ychwanegol, roedd y Cyfamod wedi bod yn bwysig trwy roi cyd-destun clir ar gyfer trafodaethau yn y cynghorau, i weithredu gydag adrannau gwasanaeth, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â thai, ysgolion a chyflogaeth, ac fel canolbwynt ar gyfer cydweithio gyda'r Lluoedd Arfog, yr elusennau perthnasol a'r sefydliadau partner.

### Rôl y sector cyhoeddus

Cyflawnir gwasanaethau sector cyhoeddus trwy lywodraethau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Er bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol i lawer o Gyn-filwyr, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddefnyddir gan Gyn-filwyr yn cael eu cyflawni gan wasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r math a'r cylch gorchwyl darpariaeth a gynigir gan bob corff cyhoeddus yn adlewyrchu ei rôl ehangach yn y sector cyhoeddus. Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn rwymedigaeth foesol hefyd a rôl arweiniol o ran materion Cyn-filwyr, sy'n cael ei gyflawni gan y Gweinidog Amddiffyn Pobl a Chyn-filwyr ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ac yn ymarferol mae'r cyfrifoldeb yn cael ei gyflawni ar draws llywodraethau. Mae'r Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn cydlynu gweithgareddau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon er mwyn galluogi'r deilliannau gorau i Gyn-filwyr ble bynnag y maent yn y Deyrnas Unedig.

Cyflawnir gwasanaethau sector cyhoeddus i Gyn-filwyr trwy gyfuniad o awdurdodau lleol, llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan greu darlun cymhleth ar draws y Deyrnas Unedig. Yn Lloegr, darperir gwasanaethau gan awdurdodau lleol a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, darperir gwasanaethau gan awdurdodau lleol, llywodraethau datganoledig ac (mewn meysydd a gadwyd) Llywodraeth y Deyrnas Unedig[7]. Mae'r holl awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr yn cefnogi egwyddor y Cyfamod na fydd unrhyw un yn wynebu anfantais oherwydd ei wasanaeth (gyda threfniadau penodol ar gyfer y rhai yng Ngogledd Iwerddon) a gallant rannu amrywiaeth o arferion effeithiol, ond gellir gwneud mwy i adeiladu ar lwyddiant a chynyddu cysondeb yr ymwybyddiaeth. Oherwydd amgylchiadau unigryw pob cenedl a rhanbarth, yn ymarferol, gall lefel a dull y gwasanaeth fod (fel y dylai) yn wahanol hyd yn oed os bydd yr egwyddorion a'r deilliannau'n fras yn gyson gan eu bod yn cael eu teilwrio i anghenion lleol. Bydd sefydlu egwyddorion a nodau mwy clir a chyson ar draws y Deyrnas Unedig yn helpu i sicrhau y bydd profiad Cyn-filwyr yn gyson ag un dinasyddion eraill.

[6] Adroddiad Our Community – Our Covenant: http://www.fim-trust.org/wp-content/uploads/2017/06/Covenant-Report-2nd-Ed.pdf
[7] Materion a gadwyd yw'r rhai sy'n parhau yn gyfrifoldeb i Senedd y Deyrnas Unedig yn unig.



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 9 12/11/2018 16:02:13

## Rôl y sector elusennol

Mae gan y Deyrnas Unedig sector elusennol cryf a bywiog i'r Lluoedd Arfog, sy'n ategu at y gwasanaethau craidd hanfodol a roddir gan y sector cyhoeddus, trwy roi gwasanaethau ychwanegol a/neu i'r diben. Mae elusennau yn rhoi gwasanaethau arbenigol i Gyn-filwyr a'r rhai a brofodd brofedigaeth ar amrywiaeth o faterion (gan gynnwys: llinellau cymorth gwybodaeth, gofal iechyd a thai) trwy'r Deyrnas Unedig i gyd, ar sail eu meini prawf cymhwyster sefydliadol eu hunain. Derbynia elusennau gyllid yn uniongyrchol o roddion gan y cyhoedd ac aelodaeth a all wneud cynllunio ariannol tymor hir yn anodd ac yn ddibynnol ar ewyllys da'r cyhoedd. Gallant hefyd gael eu comisiynu i roi gwasanaethau ar ran y sector cyhoeddus os byddant yn ennill tendrau agored yn yr un modd ag unrhyw sefydliad nid er elw. Yn ogystal â rhoi gwasanaethau, gall elusennau fod â rôl yn craffu ar weithgareddau'r sector cyhoeddus. Mae rhai elusennau yn cyhoeddi adroddiadau a dogfennau ymchwil sy'n archwilio cyflwr darpariaethau mewn amrywiaeth eang o feysydd. Gallant hefyd geisio dylanwadu ar y sectorau cyhoeddus a phreifat a gweithredu fel eiriolwyr a hwyluswyr i'r gymuned o Gyn-filwyr. Mae gan sector elusen y Lluoedd Arfog berthynas gref â'r llywodraeth, ond, byddai'r berthynas honno yn cael budd o gael mwy o sylwedd i ddatblygu cefnogaeth fwy effeithiol ac effeithlon i fuddiolwyr.

## Rôl y sector preifat

Mae nifer gynyddol o sefydliadau sector preifat o bob math a maint yn cydnabod y sgiliau, yr ethos a'r profiad y mae Cyn-filwyr yn gallu eu dwyn i unrhyw sefydliad ac mae'r busnes yn cael budd o'u cyflogi. Mae cyflogwyr sector preifat yn ymwneud yn agos â throsglwyddiad llwyddiannus i fywyd y tu allan i'r fyddin a gwaith, ac mae ganddynt rôl bwysig wrth roi hyfforddiant a gwaith. Ar adeg cyhoeddi, mae tua 3000 o gyflogwyr wedi ymuno â Chyfamod y Lluoedd Arfog, gyda darpariaethau i Gyn-filwyr yn rhan allweddol o ymrwymiad y cyflogwyr. Mae nifer o ffyrdd y mae llywodraethau yn gweithio gyda'r sector preifat. Dwy enghraifft o hyn yw'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gyrfa a'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr a redir gan Reoli Cysylltiadau Amddiffyn, y ddau ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Bartneriaeth Trosglwyddo Gyrfa yn cynnig mynediad i gyflogwyr sector preifat at wasanaeth recriwtio sy'n eu cysylltu â Phersonél o'r Lluoedd Arfog ar ddiwedd eu cyfnod ynddynt. Mae gwobrau Aur ac Arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn cydnabod y cyflogwyr hynny sy'n dangos arferion sy'n enghraifft i bawb wrth gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog, gan gynnwys Cyn-filwyr. Fel darparwyr nwyddau a gwasanaethau, gall sefydliadau sector preifat ddewis cefnogi Cyn-filwyr neu eu teuluoedd a'r rhai sydd wedi cael profedigaeth, ac mae rhai yn dewis gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys prisiau gostyngol.





CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 10 12/11/2018 16:02:14






CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 11 12/11/2018 16:02:16

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 12 12/11/2018 16:02:16

# FFACTORAU TRAWSBYNCIOL

Mae'r gwasanaethau a'r darpariaethau yn y Deyrnas Unedig sy'n cefnogi a grymuso Cyn-filwyr a'r gymuned ehangach yn gweithredu mewn dull cymhleth. Rydym wedi dynodi pump o ffactorau trawsbynciol sy'n cynnig cefndir i'r system gyfan. Bydd gwelliannau i'r rhain yn cael effaith cadarnhaol ar brofiadau Cyn-filwyr ar draws pob agwedd o fywyd.

## 1. Cydweithio rhwng sefydliadau

### Deilliant 2028


Gwell cydweithio rhwng sefydliadau yn cynnig cefnogaeth resymegol i Gyn-filwyr.

Bydd Cyn-filwyr yn aml yn cael cefnogaeth gan lawer o wahanol sefydliadau, ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol. Bob tro y bydd Cyn-filwyr yn ymwneud â darparwr gwasanaeth newydd, efallai y bydd raid iddynt ailadrodd eu hamgylchiadau a'u profiadau hanesyddol. Gall hyn fod yn rhwystredig i'r unigolyn ac yn aneffeithiol i'r sefydliadau dan sylw. Mae'r Deyrnas Unedig yn unigryw o ran faint o gefnogaeth a roddir gan y sector cyhoeddus a sector elusennol y Lluoedd Arfog, ac er bod enghreifftiau da o gydweithio rhwng y rhain, mae llawer mwy y gellid ei wneud i adeiladu ar y cryfderau y mae'r ddwy ochr yn eu dwyn i gefnogi'r gymuned o Gyn-filwyr. Mae rhywfaint o'r ddarpariaeth o wasanaethau yn benodol iawn ac eto gall y materion sy'n ymwneud â hyn fod yn gymhleth ac yn gyd-gysylltiedig e.e. yn canolbwyntio yn unig ar fater meddygol, gan gau allan yr amgylchiadau eraill cysylltiedig y gall y Cyn-filwr fod yn eu hwynebu. Mae elusennau yn arbennig o gryf o ran darparu cefnogaeth wedi ei theilwrio, ac yn aml maent yn fridfeydd i syniadau newydd. Mae gan y sector cyhoeddus gryfderau yn dynodi a rhoi triage i'r rhai sydd ag anghenion a, gan eu bod yn cael eu hariannu gan y trethdalwr, yn aml gallant gymryd golwg yn y tymor hwy. Byddai dull mwy holistaidd, diwnïad yn gwella gwasanaethau ymhellach i Gyn-filwyr trwy fod yn ehangach ac yn fwy crwn, gan ddwyn mwy o ddealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng problemau a chynnig cyngor ar sut i'w taclo.

## 2. Cydlynu gwasanaethau Cyn-filwyr

### Deilliant 2028

Cydlynu'r ddarpariaeth i Gyn-filwyr yn darparu nodau ac egwyddorion cyson dros amser a thrwy'r Deyrnas Unedig i gyd, gan sicrhau bod Cyn-filwyr, eu teuluoedd a'r rhai a gollodd anwyliaid yn cael eu trin yn deg mewn cymhariaeth â'r boblogaeth leol.




Mae cyflawni gwasanaethau yn effeithiol i Gyn-filwyr yn gofyn am i'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 13 12/11/2018 16:02:16

weithio'n glos gyda'i gilydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn cyd-fynd â'i gilydd. Tra mae'r sector cyhoeddus yn cyflawni cefnogaeth statudol, mae'n defnyddio'r arbenigedd a'r cyflawni yn y sector elusennol a phreifat. Mae nifer o Fyrddau a strwythurau traws-lywodraethol sy'n cydlynu agweddau ar gyflawni'r gwasanaeth Cyn-filwyr ac yn eiriol dros anghenion Cyn-filwyr, gan sicrhau bod llywodraeth yn rhoi'r lefel cywir o wasanaethau a chefnogaeth. Mae'n bwysig i'r systemau cydlyn yma barhau fel bod y ddarpariaeth i Gyn-filwyr yn cyflawni nodau ac egwyddorion cyson dros amser a thrwy'r Deyrnas Unedig i gyd.

teyrngarwch, a hunanddibyniaeth mae canfyddiad anghywir hefyd y gall Cyn-filwyr fod yn debygol o fod wedi eu troi yn sefydladaidd, yn dioddef yn seicolegol, ac yn llai abl i lunio perthynas tu allan i'r Lluoedd Arfog. Gall y canfyddiadau yma ei gwneud hi'n anodd i Gyn-filwyr pan fyddant yn chwilio am waith neu yn addasu yn ôl i fywyd tu allan i'r lluoedd. Felly, byddai dealltwriaeth well ymhlith y cyhoedd o brofiad Cyn-filwyr, yn arbennig chwalu mythau poblogaidd, yn galluogi gwelliannau yn haws ar draws y chwe thema allweddol.

## 3. Data am y gymuned o Gyn-filwyr

### Deilliant 2028

Gwell casglu, defnyddio a dadansoddi data ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i lunio sail o dystiolaeth i ddynodi anghenion Cyn-filwyr yn effeithiol ac ymdrin â nhw.

Mae data yn hanfodol i ddeall y gymuned o Gyn-filwyr, gan gyfrannu at sylfaen gadarn o dystiolaeth a all fod yn sail i lunio polisïau, galluogi cynllunio a chefnogi darparu gwasanaeth yn fwy effeithiol a chynnig gwerthusiad da. Gall gwell dynodi ar Gyn-filwyr mewn data a thrwyddo arwain at well dealltwriaeth o'u hanghenion, tueddiadau a'u dosbarthiad daearyddol. Mae rhywfaint o ddata dibynadwy yn bodoli eisoes ar draws y llywodraeth, ond gall fod yn dameidiog, gan wneud dadansoddi a rhagweld anghenion yn anodd.

## 4. Canfyddiad y cyhoedd a'u dealltwriaeth

### Deilliant 2028

Poblogaeth y Deyrnas Unedig yn gwerthfawrogi Cyn-filwyr ac yn deall eu profiadau amrywiol a'u diwylliant.

Dealltwriaeth y cyhoedd o'r Lluoedd Arfog sy'n pennu'r hinsawdd y bydd unigolion yn dychwelyd iddo pan fyddant yn gadael y Gwasanaethau ac yn sefydlu bywyd tu allan i'r lluoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o astudiaethau wedi dynodi nad yw canfyddiad y cyhoedd o Gyn-filwyr bob amser yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa. Cred llawer o bobl, er bod gwasanaeth milwrol yn datblygu nodweddion positif fel hunanddisgyblaeth,





CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 14 12/11/2018 16:02:17

## 5. Cydnabod Cyn-filwyr

### Deilliant 2028

Cyn-filwyr yn teimlo bod eu gwasanaeth a'u profiad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gymdeithas.

Dylai pob un sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig deimlo bod ei wasanaeth yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod gan y genedl y maent wedi ei gwasanaethu. Ar hyn o bryd mae Cyn-filwyr yn cael eu cydnabod trwy Gyfamod y Lluoedd Arfog a dathliadau Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog, yn ogystal â medalau a bathodynnau Cyn-filwyr. Dylai'r gydnabyddiaeth fod yn sensitif i deimlad y cyhoedd ac ni ddylai danseilio'r parch cyffredinol i'r Lluoedd Arfog trwy ffafrio un grŵp yn y gymdeithas ar draul un arall.






CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 15 12/11/2018 16:02:20

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 16 12/11/2018 16:02:20

# THEMÂU ALLWEDDOL

Yn ystod ymwneud â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Cyn-filwyr eu hunain, daeth rhai problemau i'r amlwg yn gyson, oedd yn effeithio ar bobl beth bynnag oedd eu hoedran, profiad, na hyd eu gwasanaeth. Dewiswyd y chwe thema allweddol gan eu bod yn adlewyrchu'r pynciau amlycaf sy'n effeithio ar fywydau Cyn-filwyr. O ystyried bod cysylltiad rhwng y themâu, efallai bod risg y bydd eu hystyried yn ynysig yn arwain at fethu gweld problemau sy'n cael eu hailadrodd a allai effeithio ar bawb, neu beidio â rhannu'r arfer gorau. Gall datblygiad cadarnhaol ar un thema gael effeithiau cadarnhaol ar thema arall hefyd. Mae hwn yn rheswm arall pam y bydd y Strategaeth hon yn cael ei chydlynu gan y Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol, gan roi adroddiad am eu cynnydd yn Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog sydd wedi hen sefydlu, gan gael y gwerth mwyaf o'r strwythurau cyflawni sy'n bodoli eisoes. Ar gyfer pob thema mae deilliant ar gyfer 2028, sy'n cyfuno i gynnal y Weledigaeth a'r Egwyddorion ac y bydd cynlluniau newydd yn cael eu mesur mewn cymhariaeth â nhw. Er y gallant gael eu cyflawni yn wahanol ym mhob rhanbarth neu genedl, bydd y deilliannau yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig.

## 1. Cymuned a pherthnasau

**Deilliant 2028**

Cyn-filwyr yn gallu llunio perthnasau iach a chymysgu â'u cymunedau.

Awgrymodd gwaith ymchwil y gall unigrwydd gael ei sbarduno gan drosglwyddiadau mewn bywyd a gall rhai nodweddion adael unigolyn yn fwy agored i'w brofi nag eraill. Daw perthnasau cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol â gwerth anferth i'n bywydau ac mae'n hawdd deall sut y gall bod hebddynt am gyfnod maith effeithio ar ansawdd bywyd unigolyn. Gall gadael y Lluoedd Arfog, a'r cyfeillgarwch cysylltiedig a'r synnwyr o ddiben, greu her i rai o ran sefydlu perthnasau newydd mewn cymunedau y tu allan i'r lluoedd. Mae rhwydwaith eang o gymdeithasau milwrol yn bodoli i'r rhai sy'n dymuno cadw cysylltiad â'u swydd flaenorol, ond i eraill efallai na fydd hyn yn cynnig y cymysgu lleol a'r teimlad o gymuned y maent yn chwilio amdanynt. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth am unigrwydd a bod yn ynysig yn gymdeithasol yn y gymuned o Gyn-filwyr, ond mae elusennau'r Lluoedd Arfog yn cofnodi bod y rhan fwyaf o'u buddiolwyr yn profi unigrwydd a/neu fod yn ynysig yn gymdeithasol yn ychwanegol at yr angen yr oeddent wedi cysylltu â nhw yn wreiddiol amdano. Nid Cyn-filwyr hŷn yn unig sy'n ei brofi, a gall yr achosion fod yn gymhleth ac wedi eu cysylltu â phroblemau eraill yn aml.

## 2. Gwaith, addysg a sgiliau

**Deilliant 2028**

Cyn-filwyr yn mynd i waith priodol a gallu parhau i gryfhau eu gyrfaoedd ar hyd eu hoes waith.

Dangosodd gwaith ymchwil bod gwaith sefydlog sy'n rhoi boddhad yn hanfodol i iechyd a lles unrhyw unigolyn. I Gyn-filwyr, yn yr un modd ag unrhyw grŵp yn y gymdeithas, mae'n bwysig eu bod yn aros mewn gwaith neu addysg ar ôl gadael y Gwasanaeth, os yn briodol. Mae'r mwyafrif mawr o Gyn-filwyr yn gadael gyda sgiliau, profiadau ac agweddau pwysig, y mae galw mawr amdanynt yn aml ymhlith cyflogwyr tu allan i'r Lluoedd. Mae pob profiad yn werthfawr, boed yn arwain at sgil penodol neu beidio, a dangosodd pawb sy'n gwirfoddoli a chael ei ddewis i Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig lefel benodol o gymhelliant a phenderfyniad. Ond, ar ôl nifer o flynyddoedd o weithio yn y gweithle milwrol unigryw, rhaid i Gyn-filwyr fynd trwy brosesau recriwtio newydd a throsi eu profiadau ar gyfer cyflogwyr tu allan i'r Lluoedd. Dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan rai cyflogwyr



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 17 12/11/2018 16:02:20

o'r gweithle milwrol, gan ddibynnu ar stereoteipiau ystrydebol a hen ffasiwn a all ychwanegu at yr her o fynd i waith i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

## 3. Cyllid a dyled

### Deilliant 2028

Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog gyda digon o addysg ariannol, ymwybyddiaeth a sgiliau i fod yn hunangynhaliol yn ariannol ac yn wydn.

Mae Porth y Cyn-filwyr yn adrodd bod arian yn gyson yn y tri maes uchaf o ran angen ac yn aml ar y cyd â phroblem arall. Gall aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog wynebu llawer o'r un problemau ariannol â'r boblogaeth yn gyffredinol, am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog. Ond, gall bywyd milwrol, sydd wedi dechrau yn aml pan oeddynt yn oedolion ifanc, adael Cyn-filwyr, yn unigryw felly, yn amharod o ran cael cydbwysedd rhwng gofynion ariannol bywyd tu allan i'r Lluoedd ar amser pan fydd eu cymheiriaid wedi cael blynyddoedd o brofiad o wneud hynny. Ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog (yn arbennig y rhai mewn tai gan y Lluoedd) mae cymhorthdal ar gyfer llawer o gostau a gallant fod yn cael eu cymryd yn uniongyrchol o'u cyflog, sy'n golygu y gall rhai pobl fod yn anymwybodol o gostau llawn bywyd y tu allan i'r Lluoedd, ac yn amharod ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys taliadau am driniaeth ddeintyddol, trwsio tai neu'r dreth gyngor, yn ogystal â chostau amlwg fel costau tai (o incwm net yn hytrach na gros) a chostau cymudo. Gall Cyn-filwyr hefyd wynebu anfantais oherwydd eu bod wedi gwasanaethu mewn nifer o leoliadau sy'n effeithio ar eu sgôr credyd.



## 4. Iechyd a lles

### Deilliant 2028

Pob Cyn-filwr yn mwynhau iechyd a lles corfforol a meddyliol positif, gan eu galluogi i gyfrannu at agweddau ehangach o gymdeithas.

Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod iechyd a lles Cyn-filwyr yn gyson â gweddill y boblogaeth – neu yn well, mae rhai problemau lle gallai gwasanaethau wedi eu teilwrio fod yn addas. Er enghraifft, mae datblygiadau meddygol yn golygu bod Cyn-filwyr gydag anafiadau corfforol a/neu drawma meddyliol sy'n gysylltiedig â'u Gwasanaeth yn fwy tebygol o fyw yn hwy na'r cenedlaethau blaenorol. Gall hyn effeithio ar eu hanghenion iechyd a lles tymor hir, a rhaid i ni fod yn barod i ddiwallu'r angen hwn yn y dyfodol. Bydd y deilliannau meddygol gorau i'r holl Gyn-filwyr ar draws y Deyrnas Unedig yn ffocws pwysig. Gellir cyflawni hyn trwy drosglwyddo darpariaeth yn llyfn o'r cyfnod mewn Gwasanaeth i'r cyfnod tu allan i'r Gwasanaeth a rhannu arferion effeithiol ymhlith cymunedau clinigol a gofal iechyd, a chefnogi cydweithio rhwng sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth iechyd, lles a llesiant i Gyn-filwyr.

## 5. Creu cartref yn y gymdeithas sifil

### Deilliant 2028

Cyn-filwyr â lle diogel i fyw naill ai trwy brynu, rhentu neu dai cymdeithasol.

I lawer o Gyn-filwyr, wrth adael y Lluoedd Arfog y byddant yn dod o hyd i gartref iddynt eu hunain am y tro cyntaf. Er gwaethaf hyn, y maen nhw yr un mor debygol â'r boblogaeth yn gyffredinol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ac nid oes tystiolaeth i awgrymu eu bod yn cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth ddigartref. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynlluniau a'r gefnogaeth sydd eisoes yn eu lle ar draws y Deyrnas Unedig. Ond, canfyddiad y cyhoedd yw bod problem sylweddol o ran digartrefedd ymhlith Cyn-filwyr. Er y bydd angen gweithio i wella'r canfyddiadau, mae'r holl Lywodraethau yn y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i daclo cysgu allan a digartrefedd.



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 18 12/11/2018 16:02:21

## 6. Cyn-filwyr a'r gyfraith

### Deilliant 2028

Cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog â'r gwytnwch a'r ymwybyddiaeth i barhau yn ddinasyddion sy'n cadw at y gyfraith.

Er bod y rhan fwyaf o Gyn-filwyr yn parhau yn ddinasyddion sy'n cadw at y gyfraith, mae lleiafrif bach yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Aelodau'r grŵp hwn yn aml sydd ymhlith y Cyn-filwyr mwyaf bregus, gydag anghenion cymhleth. Mae'r angen yn parhau i gynnig rhwydwaith o gefnogaeth fwy cynhwysfawr iddynt i wella'r cynlluniau sydd eisoes ar waith. Er bod hyn yn parhau yn her, mae nifer o enghreifftiau o raglenni cydweithredol ar draws y Deyrnas Unedig y gellid eu hehangu. Mae set benodol o heriau i'r Cyn-filwyr hynny y mae ymchwiliadau yn gysylltiedig â'u gwasanaeth yn parhau. Mae cefnogaeth fugeiliol a chyfreithiol ar gael i'r rhai y mae hyn yn effeithio arnynt a bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried a ddylai hyn gael ei gryfhau ymhellach.





CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 19 12/11/2018 16:02:24

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 20 12/11/2018 16:02:24

# CAMAU NESAF

Bydd pob cenedl yn pennu ei dull ei hun o gasglu data i gefnogi gweithredu'r Strategaeth hon. Bydd y rhain yn ceisio barn y cyhoedd ar gwestiynau penodol, i adeiladu ar yr ymchwil a'r ymgysylltu a gynhaliwyd i gynhyrchu'r Strategaeth hon, yng nghyd-destun yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn barod. Ochr yn ochr ag unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y llywodraethau yn parhau i weithio ar gynigion mewnol. Ni fydd ymgynghori ar gynnwys y ddogfen hon, gan ei bod yn bolisi i'r llywodraeth trwy'r Deyrnas Unedig.

Bydd y Strategaeth ei hun yn cael ei hadolygu hanner ffordd trwy ei hoes yn 2023. Cynhelir adolygiadau penodol o'i gweithredu yn amlach fel y bydd yn briodol. Bydd y cyflawni yn digwydd trwy gynlluniau gweithredu ar wahân. Bydd y llywodraethu yn cael ei ddarparu trwy ddull llywodraethu Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan gynnwys y Bwrdd Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol. Bydd adran o Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei neilltuo i roi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd mewn cymhariaeth â'r Strategaeth.



CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 21 12/11/2018 16:02:24

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 23 12/11/2018 16:02:24

CCS1118886948

978-1-5286-0856-5

CY_6.5008_MOD_Veterans Strategy_FINAL_08.11.indd 24 12/11/2018 16:02:24